Yr hen ŵr a'r ehedydd

Helpu eraill / Gofal

Ar ynys ymhell bell yn y gorllewin roedd hen ŵr yn byw ar ei ben ei hun. Byddai wrth ei fodd yn crwydro yma a thraw ar hyd a lled yr ynys. Yn yr haf, pan fyddai'r nosweithiau'n hir a braf byddai'n crwydro ar y mynydd-dir oedd ar ochr orllewinol yr ynys. Yn y gaeaf pan fyddai hi'n oer a stormus byddai'n crwydro ar lan y môr i chwilio am froc môr. Ar y glannau byddai darnau o bren yn cael eu lluchio gan y tonnau. Byddai'r hen ŵr yn casglu'r coed i wneud ffidil iddo'i hun. Roedd ganddo ddwsinau ohonyn nhw yn ei fwthyn.

Gyda'r nos byddai'n chwarae'r offerynnau hyn – ffidil wahanol bob nos. Dyna sut y byddai'n diddori ei hun yn ystod tymor y gaeaf pan fyddai'r môr o gwmpas yr ynys yn frochus.

Ond pan ddelai'r gwanwyn byddai'n mynd am dro ar hyd y llechweddau. Pan oedd yn cerdded trwy weirglodd a'r blodau gwyllt o gwmpas ei draed ymhob man sylwodd bod y cudyll coch yn hedfan uwchben. Mae'n rhaid ei fod wedi gweld pryd o fwyd yn y caeau islaw! Wrth i'r hen ŵr gamu ymlaen sylwodd bod aderyn bach ofnus yn cuddio ynghanol y blodau menyn. Aeth ar ei liniau i lawr i siarad efo'r aderyn bach.

"Beth sy'n bod? Ofn y cudyll coch wyt ti?" gofynnodd yr hen ŵr i'r ehedydd bach.

"Ie," meddai yntau. "Wnei di ofalu amdana i?"

"Wrth gwrs," meddai'r hen ŵr a chododd yr ehedydd bach yn ei ddwylo.

Roedd yn crynu a'i galon yn curo fel gordd.

Daliai'r cudyll coch i hedfan o gwmpas. Un munud roedd yn hedfan yn uchel yn yr awyr a'r munud nesaf byddai'n gwibio tua'r ddaear. Pan fyddai hyn yn digwydd byddai'r ehedydd yn crynu ac yn rhoi ei ben i fyny llawes yr hen ŵr.

"Mae'n well i ni fynd oddi yma," meddai'r hen ŵr.

Cerddodd yn araf tua glan môr a'r ehedydd yng nghledr ei law. Roedd y llanw ar ei ffordd allan a'r tywod yn felyn.

Eisteddodd yr hen ŵr ar y tywod. Edrychodd o'i gwmpas. Doedd dim golwg o'r cudyll. Roedd yn amlwg wedi mynd i chwilio am fwyd i rywle arall.
"Mae hi'n saff i ti fynd," meddai'r hen ŵr. Agorodd ei ddwylo a hedfanodd yr ehedydd i fyny ac i fyny i'r awyr. Dechreuodd ganu ei gân swynol. Edrychodd yr hen ŵr arno am rai munudau. Diflannodd yr ehedydd i'r entrychion.
Ar ei ffordd adref roedd yr hen ŵr yn ceisio cofio cân yr ehedydd. Hon oedd y gân brydferthaf oedd wedi'i chwarae ar ei offeryn. Cân o ddiolch oedd hi. Diolch am gael dianc o grafangau'r cudyll coch.

Gwna fi, O Dduw, yn berson sy'n mwynhau popeth o'm cwmpas. Amen.

- Sut fuasech chi'n disgrifio yr hen ŵr?
- Beth fuasech chi wedi'i wneud efo'r ehedydd bach?